TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Lantra Diploma Nyrsio Milfeddygol â€“ Practis Anifeiliaid Bychain Lefel 3



**Yn gryno**

Os ydych yn barod i gychwyn hyfforddi fel nyrs milfeddygol bydd y cwrs hwn yn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich gyrfa yn darparu gofal nyrsio i anifeiliaid gwael eu hiechyd. Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r cwrs, byddwch yn gymwys i gofrestru ar y rhestr nyrsys milfeddygol*.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...y rheiny sydd yn mwynhau gofalu am anifeiliaid

...unrhyw un sydd yn gweithio mewn milfeddygfa ar gyfer anifeiliaid bach

...hyfforddi fel nyrs milfeddygol

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r cwrs wedi ei ddylunio i roi'r cyfle i chi ennill cymhwysedd nyrsio ymarferol clinigol yn

seiliedig ar wybodaeth greiddiol am ymarfer nyrsio milfeddygol er mwyn datblygu eich gyrfa filfeddygol. Yna, gallwch ddod yn gymwys i gael eich cofrestru ar y rhestr nyrsys milfeddygol*. Bydd arbenigwyr yn y maes gofal anifeiliaid a nyrsio milfeddygol yn cynnal darlithoedd gwadd, a byddwch yn cymryd rhan mewn fforymau trafod a gwaith grwp.

Bydd angen i chi ymrwymo'n llwyr i fynychu'r coleg am un diwrnod yr wythnos am gyfnod o 36 wythnos y flwyddyn am 2 flynedd, ac i astudio yn ystod eich amser personol. Cewch eich asesu drwy:

Beirnidaeth grwp
Prosiectau
Portffolio gwaith
Cyflwyniadau
Adroddiadau
Arholiadau ymarferol ac ysgrifenedig

Wedi cwblhau hyn, byddwch yn ennill Diploma Nyrsio Milfeddygol Lefel 3 LANTRA, ac yna byddwch yn gymwys i gofrestru fel nyrs milfeddygol*.

*Byddwch yn gymwys i ymuno â Chofrestr Nyrsys Milfeddygol Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS) ac yn nyrs milfeddygol gwbl gymwys unwaith y byddwch wedi cwblhau'r Diploma Nyrsio Milfeddygol Lefel 3, log datblygiad nyrsio'r RCVS, arholiadau clinigol LANTRA sydd wedi eu strwythuro yn ôl amcanion, ac wedi cwblhau log o 1800 awr yn eich practis hyfforddi.

**Gofynion Mynediad**

Byddwch angen o leiaf 5 TGAU ar radd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg, Saesneg Iaith (neu Gymraeg Iaith Gyntaf) ac o leiaf un pwnc gwyddoniaeth.

Rydych hefyd angen bod yn gweithio mewn milfeddygfa ar gyfer anifeiliaid bach - os nad yw eich lleoliad chi yn Bractis Hyfforddi, byddwn yn gweithio gyda nhw i ennill statws Practis Hyfforddi.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Y ffioedd ar gyfer y cwrs hwn yw:

Blwyddyn 1 = £617 (yn cynnwys £325 Ffi Cofrestru Dysgwr a ffioedd ardystio diploma LANTRA, £202 Ffi Cofrestru Myfyriwr Nyrs Filfeddygol RCVS, £45 Ffi Arholiad MCQ Ar-lein Cais Cyntaf x 2)

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Blwyddyn 2 = £415 (yn cynnwys £310 o Ffi OSCE, £35 Ffi Arholiad MCQ Ar-lein Cais Cyntaf x 3)

Codir yr un gyfradd ar y Dysgwr am geisiadau dilynol am £35 o Ffi Arholiad MCQ Ar-lein a'r OSCE.